Yn arferol gwreiddio ymagweddau, monitro a gwerthuso ESG (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraeth) ac EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) ym mhob ymyriad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: — Datblygu cynllun penodedig a fframwaith gweithredu i wreiddio ESG ac EDI. — Cyflenwi Fframwaith Gwerthuso Lleol gyda Dangosyddion Perfformiad Allweddol ESG ac EDI penodol, yn cynnwys cysoni â Themâu, Deilliannau a Mesurau Cenedlaethol (TOMs). — ÔI-osod y safon, lle bynnag y bo'n bosibl, a sicrhau ei bod yn ganolog i'r holl ymyriadau wrth symud ymlaen. — Casglu data arferol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol ar lefel Ranbarthol a phenodol i brosiect.	— Cydnabod Priddinas-Ranbarth Caerdydd fel **Dinas-Ranbarth sy'n ategu rhagoriaeth** mewn ESG ac EDI. — Camau sylweddol ymlaen mewn **rhoi sylw i anghydraddoldeb cyfle** ledled Clystyrau Blaenoriaethol. — **Ymagwedd dan arweiniad y Deyrnas Unedig tuag at ddata, monitro a gwerthuso ESG ac EDI** sy'n hysbysu gwelliant parhaus o ymyriadau. — **Fframwaith Llywodraethu aeddfed** ar gyfer rheoli ymyriadau a chyflenwyr.	— **Themâu, Deilliannau a Mesurau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol** sy'n gyson â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. — **Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol** ar gyfer pob un o'r themâu gan ddefnyddio data llinell sylfaen a nodir yn y Strategaeth Ynni a Phrosiect Datgelu Carbon. — **Adrodd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** yn erbyn Clystyrau Blaenoriaethol.

CSA Catapult

Dod *yn Fwy* Cystadleuol

Galluogi busnesau yn ein sectorau blaenoriaethol a gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni lefelau uwch o gynhyrchiant drwy dwf dan arweiniad arloesi.

Tactegau	Deilliannau	Mesurau
Cyflenwi Cynlluniau Clystyrau ar gyfer pum clwstwr blaenoriaethol a nodwyd, yn cynnwys safleoedd strategol, ymyriadau sgiliau a pherchnogaeth corff masnach neu aelodaeth: — Cynllun Busnes ar gyfer y Ganolfan Arloesi Seiber. — Cynllun Busnes ar gyfer Fintech Cymru — Rhaglen SIPF UKRI ar gyfer CS Connected a Ffowndri'r CSC. — Rhaglen SIPF UKRI ar gyfer media.cymru — Rhwydwaith a strategaeth glystyrau ar gyfer MedTech.	— Pum clwstwr blaenoriaethol cryf a chydnabyddedig. — Swyddi o well ansawdd o fewn a'r tu hwnt i'r clystyrau blaenoriaethol. — Mwy o gynhyrchiant ledled y Rhanbarth. — Ecosystem arloesi iach ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda rhyngweithio rhwng y clystyrau blaenoriaethol.	— Gwerth Ychwanegol Gros Clystyrau, Swyddi, Trosoli a Chynhyrchiant, a adroddir drwy gerdyn sgôr cytbwys. — Ansawdd enillion a sicrwydd Marchnad Gyflogaeth. — Cyfradd oroesi busnesau yn y clystyrau. — Gweithgareddau ymgysylltu a, lle y bo'n berthnasol, aelodaeth o sefydliadau clystyrau.
Cynnull partneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i aeddfedu'i ecosystem arloesi Ranbarthol: — Cynnull partneriaid allweddol ledled y sector cyhoeddus, diwydiant a'r byd academaidd yn ffurfiol. — Ffurfio Bwrdd Cynghori ar Arloesi i ddatblygu a goruchwylio strategaeth arloesi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. — Defnyddio'r Cyfalaf Buddsoddi mewn Arloesi (IIC) £50 miliwn yn ddeallus. — Trosoli pwerau'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol, cynllunio liferi ariannol a pholisi i gynhyrchu twf dan arweiniad arloesi. — Llunio cydweithrediadau arloesi a masnachu rhyngwladol cynhyrchiol i gymell mewnfuddsoddiad.	— Agenda arloesi rhanbarthol sydd wedi'i chysoni ag uchelgais twf cynhwysol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. — Ecosystem lle mae arloesi'n cael ei fabwysiadu'n systematig drwy gwmnïau presennol, cwmnïau newydd, buddsoddwyr ac egin-fusnesau. — Lle da i gael sylw'n rhyngwladol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel cyrchfan arloesi i fusnesau twf uchel. — Partneriaeth arloesi a chytundebau masnachu rhyngwladol.	— Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu'n rhyngwladol fel gwerth ac fel canran o Gynnyrch Domestig Gros (GDP). — Buddsoddiad gan y sector preifat mewn busnesau. — Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor (FDI), yn enwedig mewn clystyrau blaenoriaethol. — Partneriaethau ffurfiol â phartneriaid rhyngwladol.
Tyfu'r economi gwyrdd drwy fentrau arloesi sy'n canolbwyntio ar dechnolegau gwyrdd a sgiliau'r dyfodol: — Dylunio'r uwchgynllun, adfer a dechrau datblygu Parc Ynni Gwyrdd Aberddawan. — Ymchwilio i gyfleoedd arloesi ar gyfer Gweithgynhyrchu Di-garbon a thechnolegau gwyrdd. — Trosoli cyllid Ymchwil ac Arloesi a datblygu sgiliau dan arweiniad diwydiant drwy Sefydliadau Addysg Uwch Rhanbarthol mewn ardaloedd a dargedir, megis hydrogen gwyrdd.	— Clwstwr Gweithgynhyrchu Di-garbon, yn cynnwys cyfleusterau Cynhyrchu Hydrogen Gwyrdd. — Technoleg wyrdd arloesol a sgiliau o fewn y Rhanbarth, ar gyfer helaethu a datblygu yn y dyfodol ledled y Rhanbarth. — Rhanbarth sy'n hysbys am ei arbenigedd mewn ynni cynaliadwy a hwyluso buddsoddi yn yr economi gwyrdd.	— Gwerth Ychwanegol Gros, Swyddi a Throsoli a briodolir yn uniongyrchol i weithgareddau. — Nifer a gwerth buddsoddiadau mewn technolegau gwyrdd. — Gwariant Ymchwil a Datblygu ar dechnolegau gwyrdd.
Trosoli ffrydiau cyllid Ymchwil ac Arloesi y sector cyhoeddus drwy gyflwyno cynigion cynlluniau uchelgeisiol, er enghraifft: — Man lansio Arloesedd — Cyfrif Sbarduno Effeithiau — Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU — Cronfeydd arian sy'n benodol i sectorau, megis Cronfa Cynhyrchu CoSTAR y Dyfodol.	— Clystyrau blaenoriaethol sy'n ymgysylltu'n llwyr â'r byd academaidd a phartneriaid yn y sector cyhoeddus. — Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i lleoli fel cyrchfan i ddiwydiant a chyllid ymchwil academaidd. — Trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil cymhwysol i ddiwallu anghenion diwydiant.	— Gwariant Ymchwil a Datblygu absoliwt ac fel canran o Gynnyrch Domestig Gros. — Perfformiad De-ddwyrain Cymru mewn rhestrau Ymchwil a Datblygu. — Dyfarnu grantiau UKRI a grantiau eraill y sector cyhoeddus. — Cynhyrchu eiddo deallusol newydd yn y Rhanbarth. — Nerth ymchwil ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch Rhanbarthol.
Sefydlu cymhwysedd data o ben i ben a seilwaith i dywys a chynorthwyo cynhyrchiant gan y clystyrau, gan drosoli data fel ased yn ei rinwedd ei hun: — Datblygu a sicrhau cymorth gan Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer Partneriaethau Arloesi Polisi Lleol. — Sefydlu gallu arloesi data yn y Rhanbarth, a hynny ledled sectorau. — Cyflenwi darpariaeth o well sgiliau data.	— Partneriaethau wedi'u ffurfioli â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac IPO i fynd ar drywydd trosoli data, datblygu sgiliau a gwaith cynhyrchiant uchel. — Gwasanaeth data Rhanbarthol sy'n darparu dirnadaeth a rhagwelediad yn arferol ar gyfer ymyriadau gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. — Monitro a gwerthuso perfformiad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn arferol.	— Nifer o brosiectau'n codi o asedau data Rhanbarthol. — Nifer o gwmnïau yn datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd drwy drosoli asedau data. — Cyflogaeth sy'n gysylltiedig â data a marcwyr cynhyrchiant cysylltiedig.

Dod *yn Fwy* Cysylltiedig

Buddsoddi mewn seilwaith digidol a ffisegol arloesol a thyfu'n heconomi gwyrdd.

Tactegau	Deilliannau	Mesurau
Mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at drafnidiaeth, datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chydweithredu â phartneriaid i sicrhau cyflawni: — Paratoi a chytuno ar Gynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth hyd at 2037. — Cyflenwi'r cynllun Metro a Mwy. — Datblygu'r rhaglen Metro Canolog. — Cyflenwi'n ganolog y Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol.	— Rhwydwaith trafnidiaeth ranbarthol integredig sy'n cysylltu dinasyddion y Rhanbarth yn gynaliadwy â chyfleoedd economaidd. — Canolfan drafnidiaeth integredig yng Nghaerdydd sy'n gwella mynediad i'r brifddinas yn sylweddol. — Rhwydwaith bysiau rhanbarthol sy'n gynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer y cyfnod hir.	— Nifer, cynhwysedd ac ansawdd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n weithredol. — Trosoliad a gynhyrchwyd i gyflenwi cynlluniau trafnidiaeth ac adfywio ehangach. — Pontio swyddi o farchnadoedd sy'n crebachu i gyfleoedd gwaith mwy cynaliadwy.
Caffael neu gefnogi caffael safleoedd masnachol strategol ledled y Rhanbarth fydd yn cynhyrchu twf busnes cynhenid a mewnfuddsoddiad: — Defnyddio'r Gronfa Adeiladau Strategol. — Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i nodi safleoedd strategol sydd â photensial uchel yn y Rhanbarth. — Datblygu achos busnes ar gyfer cyllidau a chyflenwi cymorth wedi'i dargedu i'r Cymoedd Gogleddol.	— Datblygiadau masnachol newydd a chynaliadwy yn y Rhanbarth, yn enwedig lle mae hyfywedd prosiectau yn bryder. — Rhanbarth sy'n cefnogi ac yn cyflymu datblygiad dan arweiniad y sector preifat a seilwaith sy'n benodol i safleoedd. — Mannau cyflogaeth newydd neu wedi'u hadnewyddu i gefnogi arloesi, twf busnes ac adfywio.	— Creu mannau gwaith newydd neu wedi'u hadnewyddu, mewn cyfaint a gwerth. — Codiadau mewn cynhyrchiant wedi'u cysoni ag ardaloedd sy'n agos at safleoedd strategol. — Nifer a gwerth prosiectau Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor. — Nifer o brosiectau a gefnogir gan yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT). — Swyddi newydd ac wedi'u diogelu yn gysylltiedig â datblygiadau masnachol.
Dechrau ar bontio'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol i sero net drwy ddefnyddio technolegau a seilwaith gwyrdd: — Manteisio hyd yr eithaf ar rôl Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth barhau i gyflwyno rhaglenni ULEV fesul cam — Deall yr angen am gyllidau gwyrdd wedi'u targedu sy'n cynorthwyo rhaglenni trafnidiaeth a seilwaith. — Mabwysiadu monitro a gwerthuso priodol i sicrhau bod yr holl fentrau trafnidiaeth yn cyflenwi ochr yn ochr â thargedau sero net.	— Dechrau ar bontio'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol i sero net / positif net. — Rhwydwaith ULEV Rhanbarthol aeddfed a hygyrch. — Monitro a gwerthuso arferol ar fesurau amgylcheddol.	— Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a mesurau amgylcheddol perthnasol eraill yn erbyn trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. — Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol ar gyfer pob un o'r themâu sy'n defnyddio data llinell sylfaen a nodir yn y Prosiect Strategaeth Ynni a Datgelu Carbon (CDP). — Nifer a defnydd o Gerbydau Trydan yn y Rhanbarth.
Arwain y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer defnydd tir yn y Rhanbarth, gan hysbysu dyraniadau ar gyfer tai, safleoedd masnachol, ynni, seilwaith digidol a chysylltedd trafnidiaeth: — Cyflenwi Cynllun Datblygu Strategol. — Cydweithredu ag Awdurdodau Lleol, datblygwyr a chymunedau wrth gyfathrebu uchelgais rhanbarthol. — Cyflawni ar biblinell gyfredol ac yn y dyfodol y Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai.	— Cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy ar safleoedd newydd a segur ledled y Rhanbarth. — Perthnasoedd cryfion ag Awdurdodau Lleol a datblygwyr, gan gydnabod y potensial ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. — Cymunedau lleol sy'n cymryd rhan ac wedi'u grymuso yn elwa o adfer tir diffaith a chefnogi seilwaith ar gyfer cartrefi newydd.	— Arian cyfatebol i gynlluniau. — Cyfanswm a dosbarthiad cartrefi newydd. — Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol ar gyfer pob un o'r themâu, gan ddefnyddio'r data llinell sylfaen a nodir mewn Strategaeth Ynni a Phrosiect Datgelu Carbon. — Swyddi, Gwerth Ychwanegol Gros a Throsoli yn ymwneud â'r cynlluniau.
Rhoi ar waith fesul cam seilwaith digidol gwell, yn neilltuol mewn ardaloedd o dlodi digidol yn y Rhanbarth: — Cyflenwi rhaglen ffibr llawn ledled lleoliadau a dargedwyd — Darparu ffibr a rhwydwaith ar gyfer cysylltedd 5G â Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol. — Trosoli'r Rhaglen Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd Cymru. — Cynorthwyo i ddefnyddio'r Rhyngrwyd Pethau (IoT) a thechnolegau clyfar mewn lleoliadau a dargedir.	— Cysylltedd digidol ffibr llawn â busnesau a chwsmeriaid preswyl fel ei gilydd mewn lleoliadau a dargedir. — Trefydd a phentrefydd gwledig mewn lleoliadau a dargedir sy'n gysylltiedig, yn gadarn, yn gynhyrchiol ac yn gystadleuol. — Cysylltedd â mastiau a synwyryddion 5G mewn lleoliadau a dargedir o'r Rhanbarth. — Canolfannau trefydd cysylltiedig mewn lleoliadau a dargedir sy'n trosoli data er budd yr economi a gwasanaethau lleol.	— Cyflymdra band eang cyffredin mewn lleoliadau a dargedir. — Nifer o adeiladau (preswyl a masnachol) a all gyrchu band eang ffibr llawn. — Creu swyddi newydd o ganlyniad uniongyrchol i ymyriadau. — Trosoli oddi wrth gyd-fuddsoddwyr wrth roi ffibr llawn ar waith fesul cam.

05. Cynllun Cyflenwi

Ein cynllun

Mae gan ein Cynllun Cyflenwi dri maes ffocws – **Dod yn Fwy Cystadleuol, Dod yn Fwy Cysylltiedig** a **Dod yn Fwy Cadarn** – gyda'r blaenoriaethau ym mhob un o'r meysydd hyn yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio tactegau, yn cyflawni deilliannau, ac yn mesur effeithiau.

Mae mesurau'n ddangosol, hyd nes y cwblheir y Fframwaith Gwerthuso Bro (LEF), a gaiff ei ddatblygu i fod yn gyson â Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (a amcangyfrifwyd ar gyfer mis Mai 2023). Pan fo'r Fframwaith Gwerthuso Bro yn gyflawn, bydd mesurau'n cael eu diffinio a'u neilltuo i Dactegau.

Rhanbarth Cadarn

Manteisio hyd yr eithaf ar ‘dwf da’ drwy sicrhau y caiff llewyrch ei rannu a’i ledaenu ledled y Rhanbarth a chymryd camau uniongyrchol i leihau anghydraddoldebau.

Gwnaeth adroddiad manwl diweddar i heriau o ran bod yn gystadleuol mewn rhannau o’r Cymoedd Gogleddol nodi bod micro-economïau yn yr ardal hon yn parhau’n annibynnol o economi coridor yr M4.

Mae yna achos darbwyllol dros ymyriadau uniongyrchol a gwahanol fydd yn cynorthwyo twf cynaliadwy yn y Cymoedd Gogleddol. Mae cynlluniau fel Metro a Mwy, y Gronfa Her Adeiladu Cyfoeth Lleol, y Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai, buddsoddiad mewn cwmnïau gweithgynhyrchu haen-ar-haen fel Apex, ac atyniadau twristiaeth anturiaethau fel Zipworld yn gwneud gwahaniaeth yn ddi-os - ond pery angen i ddatblygu’r rhwydweithiau, y cadwyni cyflenwi a chysylltedd i adeiladu màs critigol ac i greu rhyngddibyniaethau.

Ledled y Rhanbarth, mae’n rhaid inni gael yr amodau lle mae ein busnesau a’n pobl wedi’u cyfarparu orau i gofleidio’r dyfodol. Mae sgiliau, doniau, a chyfleoedd am gyflogaeth ledled y Rhanbarth yn hanfodol. Mae’r enillion dichonol yn eglur, gydag un amcangyfrif yn awgrymu bod yna 1.3 miliwn yn fwy o swyddi gweigion sydd angen sgiliau cywrain yn y Deyrnas Unedig nag y gellir eu llenwi gan allu presennol.

Bydd codi safonau byw i dalpiau mawr o’n poblogaeth yn dod â llewyrch mwy cyffredinol – a mwy o gadernid i wrthsefyll ysgytiadau economaidd.

Dinas-Ranbarth Gadarn

Dod yn Ddinas-Ranbarth gadarn gyda llawer o liferi polisi ac ariannol, drwy weithredu’r cynllun pontio a Model Gweithredu Targed.

Cenadaethau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Sefydlu a gweithredu model herio newydd ar gyfer Cenadaethau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy’n grymuso awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus i fabwysiadu datrysiad arloesol.

Cynhyrchu Ynni Sero Net

Cynorthwyo’r gorchwyl o ddatblygu cyfleusterau cynhyrchu ynni sero net yn y Rhanbarth i roi mwy o sicrwydd ynni ac i leihau dibyniaeth ar ynni ‘wedi’i fewnforio’.

Ymyriadau sgiliau a chyflogadwyedd

Cynnull cyfres dan arweiniad diwydiant o ymyriadau sgiliau a chyflogadwyedd sy’n gwella cyfleoedd i bobl ledled y Rhanbarth.

Monitro a Gwerthuso

Gwreiddio ymagweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn arferol, a monitro a gwerthuso ym mhob ymyriad gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ein Hamcanion a'n Liferi

Rhanbarth Cystadleuol

Galluogi busnesau yn ein sectorau blaenoriaethol a'n gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni lefelau uwch o gynhyrchiant drwy dwf a arweinir gan arloesi.

Os yw'r economi Rhanbarthol i ffynnu yn y cyfnod hwy, mae'n rhaid i'n sector busnes gystadlu'n llwyddiannus yn y farchnadle, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd angen ategu hyn gan system gydlynol o Ymchwil ac Arloesi sy'n gweithio lawn cystal i'r economi masnachadwy, yr economi sylfaenol, ein gwasanaethau cyhoeddus – a'r ffordd rydym yn ymgysylltu â chymdeithas ddinesig i ddatgloi syniadau a ffyrdd newydd o ddatrys problemau.

Mae'r ffocws hwn ar dwf a arweinir gan arloesi yn ganolog i'n cynllun - nodi a datblygu'n meysydd o gryfder cystadleuol, law yn llaw â chydweithredu â diwydiant a Sefydliadau Addysg Uwch, gan arwain at glystyrau a arweinir gan arloesi a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Ni fydd y clystyrau a'r cryfderau economaidd hyn yn dod i ben ym mherimedr gogleddol coridor yr M4. I fod yn Rhanbarth gwir gystadleuol, mae'n rhaid i effeithiau arloesi gael eu hymledu a'u gwasgaru drwy optimeiddio'r gadwyn gyflenwi a chydgrynhoi cronfeydd sgiliau a doniau.

Clystyrau blaenoriaethol

Cyflenwi Cynlluniau Clystyrau ar gyfer pump o glystyrau blaenoriaethol a nodwyd, yn cynnwys safleoedd strategol, ymyriadau sgiliau a datblygu corff masnach neu aelodaeth.

Ecosystem arloesi rhanbarthol

Cynnull partneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i aeddfedu'r ecosystem arloesi Rhanbarthol.

Technolegau gwyrdd

Tyfu'r economi gwyrdd drwy fentrau arloesi sydd wedi'u canoli ar dechnolegau gwyrdd a sgiliau'r dyfodol.

Ffrydiau ariannu Ymchwil ac Arloesi

Trosoli ffrydiau ariannu Ymchwil ac Arloesi'r sector cyhoeddus drwy gynnull partneriaid yn y byd academaidd a'r sector preifat i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol.

Cymhwysedd data o ben i ben

Sefydlu seilwaith a chymhwysedd data Rhanbarthol o ben i ben i gynorthwyo cynhyrchiant clystyrau, a throsoli data fel ased ar gyfer twf a arweinir gan arloesedd.

Rhanbarth Cysylltiedig

Buddsoddi mewn seilwaith digidol a ffisegol arloesol a thyfu'r economi gwyrdd.

Yn ychwanegol at welliannau Rhanbarthol i'n system drafnidiaeth drwy'r cynllun Metro, caiff buddsoddiadau ac ymyriadau parhaus a dargedir eu gwneud i wneud defnydd o asedau seilwaith ffisegol presennol ledled y Rhanbarth, gan harneisio adnoddau a chadwyni cyflenwi lleol fel bod pawb ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn elwa.

O ystyried y cyfyngiadau cyfredol yn ymwneud â chysylltedd, mae ein mentrau sydd wedi'u canoli ar seilwaith ffisegol a digidol yn chwyldroi gallu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd: gan gynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a thwf dan arweiniad arloesi; ac, yn anad dim, yn cysylltu asedau mwyaf gwerthfawr y Rhanbarth – ein pobl.

Gydag effeithiau costau ynni uwch a llai o sicrwydd ynni yn cael ei brofi ledled diwydiannau cyfalaf-ddwys mawrion, busnesau bach a chanolig, microfusnesau - a nifer o brosiectau seilwaith cynlluniedig – aeth yr angen i ddatblygu datrysiadau arloesol sy'n cyflymu cyflenwi galluoedd domestig yn amcan brys.

Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol

Mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at drafnidiaeth, datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a chydweithredu â phartneriaid i sicrhau y caiff ei gyflawni.

Safleoedd masnachol strategol

Caffael neu gefnogi caffael safleoedd masnachol strategol ledled y Rhanbarth fydd yn cynhyrchu twf busnes cynhenid a mewnfuddsoddiad.

Pontio i sero net

Dechrau ar drawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth ranbarthol i sero net drwy ddefnyddio technolegau a seilwaith gwyrdd.

Cynllun Datblygu Strategol

Arwain y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer defnydd tir yn y Rhanbarth, hysbysu dyraniadau ar gyfer tai, safleoedd masnachol, ynni, seilwaith digidol a chysylltedd trafnidiaeth.

Seilwaith digidol

Rhoi gwell seilwaith digidol ar waith fesul cam, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi digidol yn y Rhanbarth.

Credwn fod yna ddau beth allweddol a all wneud gwahaniaeth ymarferol i sut rydym yn rhoi sylw i heriau ac yn bachu ar gyfleoedd: **Polisi a Meddylfryd**.

Mae'n eglur fod profiadau micro-adnewyddu yn, er enghraifft, Gwlad y Basg, Catalonia, Malmo, a Halifax Fwyaf yn berthnasol i'n cyd-destun ni. Fel gyda'r Dinas-Ranbarthau cymaradwy hyn, byddwn yn cymryd ymagwedd gynhwysfawr tuag at gyflawni'n hamcanion, drwy ganolbwyntio ar:

- Clystyrau Diwydiannol ac Ymchwil ac Arloesi
- Cynlluniau buddsoddi gwyrdd
- Seilwaith sy'n cysylltu o fewn a ledled ein mannau
- Cynyddu maint ac ansawdd ein gweithlu
- Sgiliau a gymhellir gan y galw

Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn Gystadleuol, yn Gysylltiedig ac yn Gadarn, gan harneisio liferi allweddol a chyflwyno ystod o gymhelliannau fydd yn galluogi effeithiau gorau ledled holl rannau o'r Rhanbarth.

Bydd yr amcanion hyn sydd â ffocws yn ymateb yn uniongyrchol i bob un o'r heriau a amlygir yn y cynllun hwn. Mae ymateb i'r her hinsawdd wrth graidd ein hymagwedd ac mae'n llifo drwy bob un o'n hamcanion, gan sicrhau canolbwyntio ar yr economi gwyrdd, tai a thrafnidiaeth sy'n gynaliadwy, a sicrwydd ynni. Bydd y gallu i fyw'n rhwydd a chynhyrchiant yn ddilysnodau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a chredwn y gellir cyflawni hyn drwy fwy o ddatganoli a chymorth ar gyfer arweinyddiaeth economaidd Ranbarthol.



Mynd yn Ddinas-Ranbarth

Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sylfeini cadarn, sydd wedi'u hadeiladu drwy gyfnod creu a chyfnodau cynnar Bargen y Ddinas-Ranbarth. Fodd bynnag, nid yw un rhaglen ariannu unigol yn ddigonol i adeiladu Rhanbarth. Ynghyd â'r OECD, datblygodd Llywodraeth Cymru'r colofnau allweddol i ymagwedd newydd tuag at fuddsoddiad cyhoeddus Rhanbarthol, sy'n adeiladu ar ôl troed cytundebau Dinas a Thwf.

Mae endidau corfforaethol cyfreithiol newydd - Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) - yn awr yn weithredol, a chyflawnwyd y fersiwn ar gyfer De-ddwyrain Cymru gan y deg Awdurdod Lleol sy'n ffurfio'r Rhanbarthol ym mis Ionawr 2021. Fel cyrff cyhoeddus - gyda phwerau a dyletswyddau llesiant economaidd i greu cynlluniau integredig Rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth a defnydd o dir - mae yna le sylweddol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sicrhau mwy o ryddid a hyblygrwydd.

Bydd y pontio i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol llwyr weithredol, a ddylai fod yn gyflawn yn gynnar yn 2024, yn sicrhau bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymatebol i newidiadau yn yr hinsawdd gymdeithasol, wleidyddol ac economaidd. Bydd yn meithrin cydweithrediad gan lywodraeth leol; bydd yn datblygu polisïau ac ymagweddau newydd tuag at liferi a chymhelliannau ariannol; bydd yn darparu gwell gwasanaethau a rannir; a bydd yn gwella cynaliadwyedd a modd o fyw.





04. Bachu ar y Cyfle

Ein Huchelgais a'n Hamcanion

Ein huchelgais yw bod yn Brifddinas-Ranbarth Caerdydd falch lle mae pawb wedi'i gysylltu'n lleol ac yn fyd-eang, yn mwynhau cyfleoedd gwaith, busnes a bywyd sydd yn ein gwneud yn lle i wireddu potensial.

A hithau wedi'i llofnodi ym mis Mawrth 2016 ledled y deg awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig, mae'r Fargen Ddinesig gynharaf yn cynnwys £734 miliwn ar gyfer prosiect y Metro a £495 miliwn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Ehangach, sydd ag is-gronfeydd a chronfa hyblyg agored a adeiladwyd ar seiliau allweddol Arloesi, Seilwaith, Her a Sgiliau.

Mae'r canolbwyntio hwn ar arbenigeddau, yn enwedig yn ymwneud â chlystyrau o arwyddocâd economaidd, arloesi yn y gwasanaeth cyhoeddus ac, yn gynyddol, ymagweddau a gymhellir gan heriau, yn bwysig oherwydd ei fod yn ei gwneud hi'n anos 'cyffredinoli'. Yn wir, mae'n helpu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddeall y meysydd hynny lle mae mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu mantais gystadleuol gref.

Mae'r pwyslais hwn ar ffocws gronynnog ac ar wneud llai o bethau yn well wedi bod yn golofn allweddol o'n hymagwedd tuag at lwyddo i weithredu Bargen Ddinesig ymyriadol gwerth £1.23 biliwn.

Mae ein Bargen Ddinesig yn wahanol i Fargen Dwf fwy confensiynol. Nid oes yna raglenni neu brosiectau rhagnodedig y cytunwyd arnynt ar y dechrau. Yn hytrach, i gydnabod yr angen am ymagwedd wahanol tuag at roi sylw i'r amrywiol heriau sy'n wynebu economi De-ddwyrain Cymru dros y 25 mlynedd diwethaf, amlinellodd Gweinidogion Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ymagwedd ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd yn gwreiddio hyblygrwydd cynhenid a'r angen i'r sector cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth addasol a dynamig.

Mae cronfa fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd felly'n agored ac yn gystadleuol. Er y gall pob rhan o'r Rhanbarth deimlo buddion, mae yna ddealltwriaeth bendant na all pob rhan o'r Rhanbarth elwa i'r un raddfa – a bod yn rhaid taro cydbwysedd, yn seiliedig ar brosiectau a chynigion a gymhellir gan y farchnad.

I'r perwyl hwn, mae ein hymagwedd yn parhau i ymwneud â buddsoddi ac ymyrryd – creu a sbarduno marchnadoedd newydd, sy'n mynd ati i ddatrys materion diwydiannol a chymdeithasol mawr y dydd, a gweithio ledled ffiniau cyhoeddus-preifat i rannu risg, gwobr, a chyfrifoldeb.

Wrth wneud hyn, byddwn hefyd yn ystyried cyfleoedd sy'n cynnig adenillion ar fuddsoddiad, gan gynhyrchu arian y gellir ei ail-fuddsoddi ar brosiectau a mentrau'r dyfodol. Gweithredir yr ymagwedd hon gyda diwydrwydd dyladwy cadarn, ac mae'n fudd eilaidd sy'n dangos ymagwedd gyfrifol tuag at ailgylchu cronfeydd arian.

Mae'r ymagwedd tuag at sefydlu sail dystiolaeth ddiamwys i hysbysu strategaeth drwy fframwaith buddsoddi ac ymyrryd sy'n trosi strategaeth yn weithred, cefnogi cyd-fuddsoddi, trosoli ac adenillion ar fuddsoddiadau, wedi bod yn bwysig i well hunanddibyniaeth.

Mae'r Fargen Ddinesig wedi bod yn fwy na mecanwaith ariannu. Ynghyd ag esblygiad llywodraethu i hyrwyddo diwylliant rhwydweithio a dosbarthedig o arweinyddiaeth, o'r Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol i'r Cabinet Rhanbarthol, mae wedi bod yn gam cyntaf mewn llywodraethu economaidd Rhanbarthol.

Mae'r Fargen Ddinesig yn parhau i fod yn enghraifft gref o'r gwagle sy'n tyfu i arweinyddiaeth gyhoeddus mewn meithrin twf cynhyrchiol a chynaliadwy, gan gydnabod bod yna lawer i adeiladu arno a mwy i'w wneud.

Cyflawniadau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hyd yn hyn

Strategaeth fuddsoddi sydd wedi cydbwyso diwallu anghenion lleol ar gyfer datblygiadau seilwaith a sgiliau, gydag ymagwedd â'i bryd ar y farchnad tuag at ddatblygu mantais gymaradwy.

Gwnaeth cyfres o gronfeydd sy'n creu effeithiau sy'n gwir newid y sefyllfa sefydlu'r Gronfa Adeiladau Strategol, y Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai, y Gronfa Her Adeiladu Cyfoeth Lleol, a'r Cyfalaf Buddsoddi Arloesi.

Enillwyd dau ddyfarniad Cronfa Strength in Places UKRI ar gyfer Clystyrau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Diwydiannau Creadigol, gyda buddsoddiad cyfunol o £100 miliwn.

Sefydlu dau gwmni a gyfyngir gan gyfranddaliadau (Ffowndri CS Cyf ac Ynni Cyf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd).

Ehangu cyrhaeddiad rhyngwladol drwy bartneriaethau a digwyddiadau rhwydweithio a dargedwyd.

Prosiectau a gymeradwywyd hyd at werth o £320 miliwn,y bydd cyfran ohono'n cynhyrchu cronfeydd wedi'u hailgylchu ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

Ar y trywydd iawn i greu Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) £179 miliwn gyda GYG o £44 miliwn wedi'i gynhyrchu drwy Brosiect Ffowndri CS yn unig.

Nodi pum clwstwr blaenoriaethol ar gyfer buddsoddi.

Caffael hen orsaf bŵer a redai ar lo ar 500 erwo dir ar gyfer addasu ar gyfer dibenion gwahanol fel parc ynni gwyrdd.

Ailddiffinio rôl y sector cyhoeddus fel sbardunwr arloesi, gan greu ac ysgogi marchnadoedd newydd a chynnull o amgylch heriau cymdeithasol mawrion y dydd, drwy raglenni Her ac InFuse.

Cyrraedd y nod ar gyfer £2.5 biliwn o drosoli ychwanegol.

03. Gosod y Sylfeini

Bargen Dinas-Ranbarth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Comisiwn Twf y Fargen Ddinesig, a adroddodd ym mis Rhagfyr 2016, a (er 2018) Phartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (REGP) Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, wedi eiriol dros ymagwedd ‘gwaelod i fyny’ neu ficro-economaidd tuag at drechu’r her dwf, gan gydnabod y cynhyrchion a’r gwasanaethau nodedig y mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn sefyllfa dda i’w cynnig.

HER

03

Datgarboneiddio’n heconomi erbyn 2050

Mae’r angen brys am ymyrraeth a gweithredu ar y cyd – ar gyflymder a graddfa – i roi sylw i’r heriau difrifol, a geir gan newid yn yr hinsawdd, yn ddirfawr ac yn amlwg, gan roi cyfrifoldeb mawr ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i gymryd rôl yn y nod cenedlaethol o ddatgarboneiddio 100% erbyn 2050.

Bydd cyflawni hyn yn gofyn am drawsnewid y system ynni: newidiad sylfaenol i’r defnydd a’r cynhyrchiant o ynni ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae graddfa’r her eisoes yn amlwg. Mae dwyster carbon cyfredol De Cymru oddeutu 317 gram o garbon deuocsid, sy’n gyfwerth â’r hyn a gynhyrchir bob awr cilowat o drydan a gynhyrchir, gan ei wneud yn rhanbarth sy’n perfformio waethaf yn y Deyrnas Unedig.

Mewn sefyllfa ‘Busnes fel Arfer’, disgwylir i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gyflawni dim ond 26% o ddatgarboneiddio erbyn 2035 (llai na hanner y 55% sydd ei angen i fod ar y llwybr iawn i sero net) ac mae gofyn i’n huchelgais a’n gweithredoedd unioni hyn ar fyrder.

Daw’r her hinsawdd hefyd â chyfle trawsnewidiol. Mae cynnyrch a gwasanaethau gwyrdd yn ffurfio un o’r sectorau sy’n tyfu gyflymaf yn yr economi byd-eang, ac mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fomentwm sylweddol yn y maes hwn. Yng ngoleuni’r argyfwng ynni cynyddol, mae gennym gyfle unigryw i drosoli ‘gwyrdd’ fel mantais strategol i gydategu’n diwydiannau newydd ac aeddfed presennol, fel ei gilydd.

HER

04

Gwella’n seilwaith ffisegol a digidol

Mae coridor yr M4 sy’n bongamu Cymru a Lloegr yn darparu cysylltedd ar gyfer y Rhanbarth, ynghyd â seilwaith rheilffordd prif lein, amryw o borthladdoedd dŵr dwfn, a maes awyr cenedlaethol. Mae cysylltedd mewn mannau eraill yn y Rhanbarth - yn enwedig yn y Cymoedd Gogleddol a ledled coridorau’r cymoedd - yn parhau i fod yn her, ac er bod Metro De Cymru yn flaenllaw wrth roi sylw i hyn, mae gwaith gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar Weledigaeth Reilffordd i Deithwyr yn amlygu’r tanfuddsoddiad hanesyddol yn seilwaith rheilffordd y Rhanbarth.

Mae ansawdd, fforddiadwyedd, a hyfywedd gwasanaethau bysiau yn her fawr arall, ac mae’r amgylchedd wedi’i gymhlethu’n rhagor oherwydd bod cymorthdaliadau ychwanegol wedi’u tynnu yn ôl, ac adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar ‘Dyfodol Bysiau a Threnau yng Nghymru’, sy’n cynnig model masnachfraint.

Mae cysylltedd digidol yn hynod newidiol ledled y Rhanbarth. Mae cyflymder band eang cyfartalog y Deyrnas Unedig wedi bron â dyblu yn y ddwy flynedd diwethaf – ond mae ardaloedd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyrraedd dim ond ychydig dros hanner y cyflymder hwn.

Mae’r diffyg lled band, cynnydd mewn gweithio gartref – ac union faint gofynion seilwaith digidol sydd eu hangen ar gyfer ein cytrefi trefol, cymunedau gwledig ac amrywiaeth eang o fusnesau - yn ei gwneud hi’n eglur nad oes yna un ymagwedd dechnoleg unigol sy’n gallu diwallu’r holl anghenion yn y Rhanbarth, a bydd angen amrywiaeth o dechnolegau i alluogi nod cyffredinol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o gyflenwi mynediad hollgyffredinol sy’n gallu cynnwys Gigabit.



HER

01

Mynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd a hybu twf

Dengys dadansoddiad o wybodaeth gynnar am Gyfrifiad 2021 fod 95% o gyfanswm twf poblogaeth Cymru wedi'i grynhoi mewn dim ond pedair ardal Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd - Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, a Bro Morgannwg. Mae'r rhain ymysg y rhannau mwyaf llewyrchus o Gymru ac mae'u nerth economaidd yn bwysig o ran denu a chadw gafael ar bobl oed gweithio.

Gan Gaerdydd a Chasnewydd y mae'r proffil demograffig ieuengaf yng Nghymru - sy'n rhoi'r ddwy ddinas mewn sefyllfa dda i helpu i gymell economi Cymru. Mewn cyferbyniad â hynny, mae Blaenau Gwent a Chaerffili wedi profi gostyngiad sylweddol mewn poblogaeth ifanc ac oed gweithio.

Yn ôl mesurau Gwerth Ychwanegol Gros y pen, saif economi Cymru ar 73% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Hyd yn oed yn ardaloedd mwyaf llewyrchus Caerdydd a Bro Morgannwg, mae Gwerth Ychwanegol Gros ond yn 97.5% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Yn y Cymoedd Gogleddol, ac yn neilltuol yng Nghymoedd Gwent, mae Gwerth Ychwanegol Gros y pen ond tua hanner y cyfartaledd cenedlaethol.

Mae dau Awdurdod Lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd (Merthyr a Blaenau Gwent) yn dal i fod yn agos at y gwaelod un o'r 362 o leoliadau yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys Mynegai Cystadleugarwch y DU. Mae Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd yn ymdopi'n well, gan gael eu cynorthwyo'n rhannol gan ymyriadau a alluogir gan Fargen Dinas-Ranbarth sy'n gweithredu i gryfderau sectoraidd allweddol, megis buddsoddiad a dargedir yn y clystyrau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, Diwydiannau Creadigol a Thechnoleg Ariannol.

Mae'n rhaid i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ganolbwyntio ar yr hyn y dylid ei wneud i wneud cynnydd yn economaidd ac yn gymdeithasol, gan gydnabod na fydd hyn yn datrys pethau dros nos. Gwnaeth Adolygiad Gateway Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r Fargen Ddinesig yn 2020 ddilysu'n hymagwedd gyfnod hir tuag at gynyddu cynhyrchiant, a seilir ar sectorau gwerth ychwanegol uchel a thwf dan arweiniad arloesi.

Ac mae hi felly yn iawn bod y cynllun hwn yn cydnabod y newidiadau economaidd sy'n digwydd - gan ddarparu eglurder ynglŷn â sut mae 'twf da' yn ymddangos i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, a'r angen inni fod yn canolbwyntio'n ddeublyg ar fynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd, yn ogystal â rhoi hwb i dwf economaidd Rhanbarthol.



HER

02

Gwella gallu a chynhwysedd arloesi

Mae arloesi'n greiddiol i'r economi sylfaen yn ogystal ag i'r economi masnachadwy: mae'n hanfodol i iechyd y gwasanaethau cyhoeddus, gan danategu'r contract cymdeithasol â chymdeithas ddinesig. O ystyried hyn, mae arloesi'n allweddol i bweru agenda ffyniant bro mewn rhanbarth, gan fod modelau o arloesi dan arweiniad ymchwil yn nodweddiadol yn cyfuno o amgylch cilgant deheuol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae lefelau o fuddsoddi cyhoeddus a phreifat mewn arloesi yn gyffredinol yn isel yn ein Rhanbarth. O'i ystyried gyferbyn â tharged Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fuddsoddi 2.4% o wariant cenedlaethol mewn ymchwil a datblygu (i fod yn lefel â gwledydd OECD), mae'r lefel gyfartalog o fuddsoddiad mewn arloesi yn y Rhanbarth yn llai nag 1%.

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau dwy Gronfa UKRI Strength in Places, yn gwneud cyfanswm o £100 miliwn, sy'n amlygu cydweithrediadau llwyddiannus rhwng y sector cyhoeddus, diwydiant a Sefydliadau Addysg Uwch y Rhanbarth. Fodd bynnag, mae yna ardaloedd o'r Rhanbarth sydd wedi methu â denu unrhyw gyllid ymchwil a buddsoddi gan y sector cyhoeddus (drwy, er enghraifft, Innovate UK) yn y saith mlynedd diwethaf.

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi bod ar flaen y gad ymysg rhanbarthau'r Deyrnas Unedig o ran nodi a chynorthwyo clystyrau diwydiannol blaenoriaethol (Technoleg Ariannol, Technoleg Feddygol, Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, Seiberddiogelwch a Diwydiannau Creadigol), a bydd y rhain yn parhau i fod ar ben blaen ein hymagwedd tuag at arloesi.

Cydnabyddwn hefyd y dylid gwasgaru ymyriadau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i egnioli twf clystyrau ledled y Rhanbarth - er enghraifft, wrth gysylltu cadwyni cyflenwi neu sicrhau bod sgiliau a chyfleoedd gwaith o werth uchel ar gael i bawb.

02. Rhoi Sylw i'r Heriau

Ein Cyd-destun Rhanbarthol

Fel cartref i brifddinas Cymru a thros 1.5 miliwn o bobl, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynrychioli oddeutu hanner poblogaeth, busnesau ac economi'r genedl. Gan fod yn Rhanbarth hyfyw ac amrywiol sydd eisoes wrth graidd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd Cymru, mwynhawn nifer sylweddol o fanteision o ran lleoliad strategol, adnoddau naturiol, a bod yn lle da i fyw.

Fodd bynnag, er bod y Fargen Ddinesig wedi gwneud cynnydd cryf wrth dyfu'r economi rhanbarthol, mae'n bwysig bod yn realistig ynglŷn â'r pedair her allweddol rydym yn eu hwynebu.

Llywio drwy amseroedd eithriadol drwy ganolbwyntio ar uchelgais cyfnod hir

Er nad yw'n huchelgais trosfwaol am economi mwy, tecach a gwyrddach wedi newid ers llofnodi'r Fargen Dinas-Ranbarth yn 2016, mae cyfres o heriau difrifol ac sy'n tyfu yn gwneud y gorchwyl hyd yn oed yn fwy perthnasol a hollbwysig. Mae chwyddiant yn uwch nag a fu ers deugain mlynedd, mae cyfraddau llog yn codi; mae ynni, bwyd a seiberddiogelwch yn risgiau pendant; ac mae yna nifer o dyndrau geo-wleidyddol - y rhyfel yn Wcráin, yn anad dim - wedi codi yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Mae'r newidiadau macro-economaidd hyn dros dro ond maent yn atgyfnerthu'n hymrwymiad a'n ffocws cyfnod hir i 'ffyniant bro'.

Yn y cyd-destun hwn y mae'r Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol diwygiedig hwn yn amlinellu'n hymateb i'r heriau, a map ffordd i ddod yn Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n falch, yn gysylltiedig ac yn gadarn lle y bydd ein holl gymunedau'n mwynhau'r cyfleoedd a'r deilliannau gorau posibl.

Gwireddu buddion i'n holl bobl

Mae hanes ein Rhanbarth yn hanes o ffawd gymysg. Cynyddodd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i 97.5% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig - sy'n hollol wahanol i rannau o'r Cymoedd Gogleddol, lle mae Gwerth Ychwanegol Gros ond yn 53% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Hyd yn oed o fewn economïau mwy nerthol coridor yr M4, fodd bynnag, mae yna heriau sylweddol yn ymwneud â dosbarthu cyfoeth a chyfleoedd.

Mae gan ddaearyddiaeth ein Rhanbarth a heriau yn ymwneud â chysylltedd ffisegol ran mewn gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol. Gall effeithiau gorlifol sectorau twf a gwelliannau mewn seilwaith gynyddu hygyrchedd i fuddion economaidd, ond ein hymagwedd oedd peidio â dibynnu ar hyn – oherwydd nad yw buddion bob amser yn deillio'n gyfartal ledled y Rhanbarth.

Yn hytrach, bu'n amgenach gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gydnabod annibyniaeth gymharol micro-economïau ledled y Rhanbarth, yn cyflenwi strategaeth sy'n sicrhau bod pob man yn gwireddu buddion uniongyrchol a chyffyrddadwy.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn:

- Mynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd hynny sy'n profi poblogaethau sy'n lleihau
- Ysgogi'r economi ac yn annog mwy o bobl oed gweithio i aros a dychwelyd i'r Rhanbarth
- Denu ystod o gwmnïau a chynyddu cynhwysedd cynhyrchiol drwy dyfu'r sylfaen swyddi mewn clystyrau cystadleuol allweddol
- Cyfnerthu'r partneriaethau pwysig a ffurfiwyd ledled arweinyddiaeth wleidyddol a busnes lleol
- Canolbwyntio ar fod yn lle da i fyw a chynhwysiant, yn ogystal â chynhyrchiant

O Fargen Ddinesig i Ddinas-Ranbarth

Mae mandad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn tyfu mewn pwysigrwydd, gydag ychwanegiad newydd at y dirwedd bolisi, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (cyrff cyfreithiol corfforaethol sy'n cwmpasu daearyddiaeth Ranbarthol weithredol Cymru, yn cynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd). Mae pwerau a dyletswyddau a ddyfarnir i'r cyrff cyhoeddus newydd hyn yn golygu mwy o ryddid a hyblygrwydd, a gofyniad i ddatblygu ymagweddau Rhanbarthol cydlynol tuag at gynllunio sy'n defnyddio tir, trafnidiaeth a lles economaidd.

Lle'r oedd agweddau blaenorol o'r Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol (REIP) yn canolbwyntio ar gyflawni'r Fargen Ddinesig, bydd hyn yn awr yn un o amryw o offerynnau ariannu y mae modd ei ddefnyddio. Mae ein mandad strategol ehangach yn tyfu gyda chyfleoedd cynhenid yn y daith i fod yn Brifddinas-Ranbarth sy'n batrwm enghreifftiol.

Mae cysoni llunio polisi mwy cyffredinol â'n huchelgais a'n hamcanion craidd yn gwneud ein rôl fel Dinas-Ranbarth sy'n ymyrryd hyd yn oed yn fwy perthnasol ac amserol. Gyda'r gofyniad i ddatblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Y Gronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) a nifer cynyddol o gyfleoedd i drosoli cyllid a anelir at wastatáu dosbarthu cronfeydd Ymchwil a Datblygu y tu allan i Lundain a'r De-ddwyrain Fwyaf, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gynullydd naturiol, sy'n gallu defnyddio ymagwedd amyneddgar tuag at fuddsoddi cyhoeddus Rhanbarthol a'r gorchwyl o adeiladu Rhanbarth.

Cyflawni cydweithredol

Gyda hyn fel cefndir, rydym yn falch o gyflwyno REIP sy'n adlewyrchu partneriaeth gref ac amrywiol rhwng partneriaid lleol a chenedlaethol – gan gwmpasu'r sector cyhoeddus, busnesau, cymunedau a'r byd academaidd – a chydnabyddiaeth o'r cyfle a'r uchelgais ar y cyd ar gyfer y Rhanbarth.

I'n partneriaid yn y llywodraeth – ar lefelau Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig – safwn yn eglur ar yr addewid fod ffyniant cyffredin yn ganolog i'n cenhadaeth gymdeithasol. Mae'r amgylchedd llywodraethu aml-lefel newydd hwn sydd yn awr yn nodweddu'n cyd-destun gweithredu yn ei gwneud hi'n sylfaenol bwysig bod pob lefel o lywodraeth yn gyson ynglŷn â sut i gau bylchau mewn cynhyrchiant ac incwm.

Bydd hynny'n golygu cysylltu pobl â chyfleoedd ac ymrwymo i wneud pob man yn y Rhanbarth yn fan cadarnhaol i fyw ac i lewyrchu ynddo, drwy gael at ddyfodol cyfoethocach, tecach a gwyrddach.

01. Rhagymadrodd

Economi Mwy, Tecach a Gwyrddach

Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn meithrin economi rhanbarthol sy'n fwy, yn decach, ac yn wyrddach, gan gynhyrchu twf da a chreu amodau ar gyfer llewyrch a rannir ledled y deg awdurdod lleol sy'n ffurfio'n Rhanbarth.

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

monmouthshire sir fynwy

Vale of Glamorgan Bro Morgannwg

Blaenau Gwent County Borough Council

Caerphilly County Borough Council Caerffili

Cardiff Caerdydd

Merthyr Tydfil County Borough Council Merthyr Tudful

Torfaen County Borough Bwrdeistref Sirol Torfaen

Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Rhondda Cynon Taf

Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd

Cynnwys

01. Rhagymadrodd

Economi Mwy, Tecach a Gwyrddach Tudalen **4**

02. Rhoi Sylw i'r Heriau

Ein Cyd-destun Rhanbarthol Tudalen **8**

03. Gosod y Sylfeini

Bargen Dinas-Ranbarth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Tudalen **14**

04. Bachu ar y Cyfle

Ein Huchelgais a'n Hamcanion Tudalen **18**



05. Cyflawni Newid

Ein cynllun Tudalen **26**

Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol

2023 - 2028

www.cardiffcapitalregion.wales/cy

Prifddinas Ranbarth Caerdydd